**STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL I DORFAEN:**

**Terfynol – Mai 2019**

**Sue Browne a Steven Honeywill**

**UCGC**

***Logo Cynllun Toiledau Cenedlaethol***

## RHAGAIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cydnabod pwysigrwydd toiledau cyhoeddus o ran helpu pobl i gadw'n actif yn ein cymunedau ac mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn dadlau'r achos dros doiledau cyhoeddus i atal unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Rydym yn darparu nifer o doiledau ar draws y fwrdeistref ac rydym hefyd yn croesawu aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r toiledau yn rhai o'n hadeiladau a'n llyfrgelloedd yn ystod oriau agor.

Yn yr hinsawdd sydd ohoni heddiw, sef caledi a phwysau ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n amlwg na all y Cyngor wneud hwn ar ei ben ei hun. Ers peth amser, rydym wedi gweithio i annog busnesau a grwpiau cymunedol lleol i agor eu toiledau cwsmeriaid i'r cyhoedd ac rydym yn croesawu'r canllawiau a roddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru sydd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithio fel hyn .

Mae rhai busnesau yn Nhorfaen eisoes yn agor eu toiledau cwsmeriaid i'r cyhoedd yn gyffredinol ac rydym yn gobeithio y bydd mwy o fusnesau a grwpiau cymunedol yn ymateb i'n ceisiadau mewn ffordd gadarnhaol, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt agor eu cyfleusterau i gwsmeriaid nad ydynt yn talu . Fodd bynnag, mae busnesau'n gweld manteision bod yn rhan o gynlluniau cymunedol fel Lleoedd Diogel a Chymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia, y mae llawer o fusnesau yn Nhorfaen eisoes yn cymryd rhan ynddynt.

Felly, fe'm calonogwyd y byddant hefyd yn cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cenedlaethol ac y bydd pobl yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel i fynd allan yn Nhorfaen, gan wybod lle mae yna doiledau y gallant eu defnyddio.

**Y Cynghorydd David Daniels**
**Yr Aelod Gweithredol dros Gymunedau, Tai a Gwrthdlodi**
**(Ebrill 2019)**

TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**CYNNWYS**

Cyflwyniad a Phwrpas y Strategaeth Toiledau Lleol ……………………………. T5

Lles a'r Pum Ffordd o Weithio………………………………………….........…. T7

Asesu'r Angen ……………………………………………………………...... T9

- Poblogaeth
- Iechyd
- Cymudo a Theithio Llesol
- Economi gyda'r nos
- Twristiaeth

Mynediad at Fannau Gwyrdd ……………………………………………………T12

- Y Gamlas
- Parciau

Mynediad Cyfartal ……………………………………………………………….. T13

- Diogelwch
- Codi Tâl
- Cynaliadwyedd

Mathau o Doiledau ………………………………………………………………T15

- Cyffredinol
- Niwtral o ran rhyw
- Hygyrch (neu Anabl)
- Lleoedd Newid (i bobl sy'n ddifrifol anabl)
- Cynllun allwedd RADAR
- Cyfleusterau newid cewynnau

Cyfleusterau Presennol ……………………………..........................................…....T17

- Toiledau Cyhoeddus Sy'n Eiddo i GBST ac Sy'n Cael eu Rhedeg Ganddo
- Adeiladau CBST sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd
- Gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a grwpiau cymunedol
  Busnesau sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd
- Busnesau sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd

Amserau Agor ……………………………………………………...………………..T20

Ein Cynllun i Gyflawni'r Strategaeth Hon…………………………………………….. T21

- Cyfleusterau glân, diogel ac wedi eu cadw'n dda
- Cyfleusterau hygyrch i bawb, ym mhob lleoliad ymarferol
- Ystyriaethau Daearyddol

- Gweithio gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, busnesau lleol a grwpiau cymunedol
- Gwybodaeth a hyrwyddo cyfleusterau

Ymgysylltu, Ymgynghori a Chraffu …………………..…………….........……….... T24

Adolygu, Adrodd a Diwygio …………………………………........…………..……. T25

Cyfeiriadau ………………………………………………………………...…..………… T26

Atodiadau ………………………………………………………………....………..... T26

## CYFLWYNIAD A PHWRPAS Y STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBS) eisoes yn darparu nifer o doiledau cyhoeddus ar draws y fwrdeistref fel rhan o'n Gwasanaethau Cymdogaethau (Strydlun).

Ers 2003, fel rhan o'r ymateb lleol i'r Strategaeth genedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, rydym wedi bod yn rhan o ymgyrch y Cynllun Toiledau Cymunedol cenedlaethol sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol a busnesau i hyrwyddo toiledau, trwy ddarparu taflen sy'n dangos cyfleusterau ar draws y fwrdeistref, gan annog pobl i gymryd rhan ac arddangos arwyddlun cenedlaethol.

Mae mynediad i doiledau yn bwysig i'r holl boblogaeth ac nid yn unig pobl hŷn, er mai'r ffocws ar y boblogaeth hŷn trwy'r Strategaeth genedlaethol oedd annog pobl i barhau i fynd allan yn eu cymunedau lleol a thu hwnt. Mae diffyg toiledau cyhoeddus yn aml yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn dod yn gymdeithasol ar wahân a gall unigrwydd ddatblygu. Serch hynny, mae nifer o bobl (gan gynnwys pob iau, teuluoedd a phobl o bob oed sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled ac yn aml, gall diffyg darpariaeth eu harwain i gyfyngu ar eu cysylltiadau cymdeithasol ag eraill.

Mae ymchwil wedi dangos bod unigrwydd yn gallu bod yn ffactor mawr mewn dirywiad mewn iechyd a lles, yn arbennig ymhlith pobl hŷn. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau fel clefyd cardiofasgwlar, gorbwysedd, a dementia. Mae'r peryglon yn debyg i'r rheiny sydd ynghlwm wrth ysmygu a gordewdra (Holt-Lunstad, 2015 /Hawkley et al, 2010[1] Canfu'r ymchwil hwn fod pobl unig yn wynebu cynnydd o 50 y cant yn y perygl o farwolaeth gynnar, o'u cymharu â'r rheini sydd â chysylltiadau cymdeithasol da. Mewn gwrthgyferbyniad, mae gordewdra yn codi'r tebygrwydd o farw cyn 70 tua 30 y cant.

Yng Ngorffennaf 2017, cyflwynodd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 ('y Ddeddf') [2] nifer o gamau ymarferol ar gyfer gwella a gwarchod iechyd ac mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno darpariaeth toiledau a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Bwriad Rhan 8 yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion y gymuned mewn perthynas â thoiledau, ac yna'n datblygu dull strategol a thryloyw i gwrdd â'r angen yma yn y ffordd orau. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y pwysau ariannol ar gynghorau felly nid yw'n mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu toiledau cyhoeddus eu hunain ond mae'n gofyn eu bod yn gweithio gydag eraill i roi mynediad i doiledau yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn agor eu cyfleusterau ac ymgysylltu â busnesau preifat.

Nid bwriad Rhan 8 yw atal awdurdodau lleol rhag cymryd penderfyniadau y mae angen iddyn nhw eu cymryd fel rhan o'u gweithgareddau, a all gynnwys penderfyniadau i gau toiled neu adeilad cyhoeddus pan fo'n briodol gwneud hynny. Yn lle, y bwriad yw gwella cynllunio darpariaeth fel bod hyn, pan fo penderfyniadau'n cael eu cymryd, yn digwydd yng nghyd-destun cwrdd ag anghenion cydnabyddedig eu cymunedau. Bydd dull strategol hefyd yn helpu i leddfu unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i newid y ddarpariaeth.

Nid yw CBS Torfaen yn bwriadu cau unrhyw un o'i gyfleusterau toiled ar hyn o bryd na lleihau'r oriau agor. Mae'r partneriaid yr ydym eisoes yn gweithio gyda nhw yn dweud nad ydyn nhw'n bwriadu cau na newid mynediad i'w cyfleusterau. Os fydd newid yn y sefyllfa yma oherwydd pwysau ariannol, bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yma'n rhoi gwybodaeth a chyfeiriad ar sut mae modd darparu mynediad i doiledau trwy wasanaethau amgen ac felly cynorthwyo'r broses o benderfyniadau gan yr awdurdod lleol.

Mae'r Strategaeth hon yn rhoi'r penawdau o'r asesiad o angen ac yn nodi ein cynlluniau i ddarparu a gwella mynediad i doiledau yn Nhorfaen er mwyn rhoi hyder i'r bobl allu mynd allan yn Nhorfaen.

Mae Llywodraeth Cymru yn arwain Cynllun Toiledau Cenedlaethol Cymru, lle mae'r holl doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn arddangos y logo cenedlaethol a manylion eu lleoliad, eu horiau agor a'r math o doiledau yn cael eu rhestru ar fap toiledau cenedlaethol. Mae'r map hwn ar gael ar y wefan genedlaethol: http://lle.gov.wales/home

Mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei chofnodi ac mae'n ymddangos ar wefannau awdurdodau lleol a phwyntiau gwybodaeth gyhoeddus, gan roi gwybodaeth i bobl am fynediad i doiledau ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r wybodaeth ynglŷn â Thorfaen ar gael ar: https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

## LLES A’R PUM FFORDD O WEITHIO

Mae lles pobl yn bwysig i iechyd corfforol a meddyliol gan ei fod yn ein helpu i gadw’n iach neu’n gallu rheoli unrhyw afiechyd neu gyflwr yn well. Mae cael mynediad i’r awyr agored i chwarae, gwneud ymarfer corff a hamdden; gallu mynd i’r ysgol neu’r gwaith; gallu gwneud tasgau dydd i ddydd fel siopa, ymweld â ffrindiau neu grwpiau cymdeithasol; a theimlo’n ddiogel, yn rhai o’r pethau sy’n helpu’n lles. Hefyd dyma’r prif bethau y mae pobl yn dweud wrthym sy’n bwysig iddyn nhw, ac mae gwybod bod toiledau ar gael ar eu cyfer ar adegau fel hyn yn golygu eu bod yn gallu teimlo’n hyderus pan fyddant yn mynd allan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth i wella lles; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r ddwy Ddeddf yna’n gofyn i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru ystyried a gwella lles y lleoedd yr ydym yn byw ynddyn nhw a’r bobl sy’n byw yma.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r dyfodol yn cyflwyno pum ffordd o weithio y mae'n rhaid eu gweithredu gyda phob datblygiad polisi a gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i wella lles. Wrth ddatblygu’r Strategaeth Toiledau Lleol yma rydym wedi:

| | |
|---|---|
| <br>Integreiddio | Edrych ar rannau eraill o weithgareddau busnes a rhanbarthol y Cyngor fel trafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio, parciau a mannau agored, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth, felly gallwn weithio tuag at alluogi pobl i ddefnyddio toiledau wrth deithio neu’n defnyddio’r lleoedd yma. |
| <br>Tymor hir | Edrych ar leoliad y toiledau y mae’r Cyngor yn eu rhedeg a’n cynlluniau ar gyfer eu cynnal, cadw a’u hadnewyddu yn y dyfodol.<br>Nodi’r bylchau a sut allwn weithio gyda phartneriaid, busnesau a grwpiau cymunedol i geisio darparu toiledau yn yr ardaloedd hyn.<br>Rydym hefyd wedi edrych ar sut y gallwn ddefnyddio'r Strategaeth hon i ddod o hyd i doiledau eraill mewn ardal os, am unrhyw reswm, bydd y cyfleusterau presennol ar gau. |
| <br>Atal | Ystyried pwysigrwydd toiledau mewn perthynas ag arwahanrwydd cymdeithasol a gweithgaredd corfforol ac effaith hyn ar angen pobl am wasanaethau iechyd yn y dyfodol.<br>Edrych ar y gost a’r adnoddau eraill y mae eu hangen i ddarparu a chynnal a chadw cyfleusterau toiled a sut allwn atal lleihad yn y dyfodol.<br>Edrych ar yr ardaloedd ble nad oes cyfleusterau toiled a nodi gwasanaethau cyhoeddus eraill, adeiladau cymunedol neu fusnesau preifat y gallwch ofyn iddyn nhw i roi cyfleusterau ar gael yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| <br>Cymryd rhan | Ymgysylltu â phobl ar draws Torfaen a gofyn am eu barn ar doiledau, pa broblemau sydd ganddyn nhw, sut bethau allai gynnig atebion.<br><br>Rydym wedi defnyddio’r wybodaeth yma i gynllunio’n gweithgareddau a byddwn yn cadw mewn cysylltiad â phobl sydd wedi dangos diddordeb arbennig yn y gwaith yma. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwrando ac yn cydweithio gyda’n cymunedau i ddarparu cyfleusterau sy’n lân ac yn ddiogel i bobl. |
| <br>Cydweithio | Gweithio gyda rhai o’n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i adnabod cyfleusterau ychwanegol yn ogystal â’r rheiny y mae’r Cyngor yn eu defnyddio.<br><br>Mae gennym waith pellach i wneud yn y maes hwn er mwyn gwneud y mwyaf o fynediad i doiledau yn Nhorfaen ac mae hyn yn ffurfio rhan o’r Strategaeth. |

## ASESU'R ANGEN (AM DOILEDAU CYHOEDDUS)

Cwblhawyd asesiad o angen mewn perthynas â thoiledau yn ystod yr haf ac ar ddechrau'r hydref yn 2018. Fe wnaethom ddefnyddio Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (2017)[3] ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (2017)[4], er mwy deall demograffeg ein poblogaeth, amrywiaeth a lefel cyflyrau iechyd sy'n effeithio pobl yn Nhorfaen, yn ogystal â gwybodaeth gysylltiedig ar bobl yn rhyngweithio â'u cymunedau.

Rydym wedi mapio'r toiledau presennol, wedi edrych ar gynlluniau teithio a ffyrdd cymudo, gan nodi gorsafoedd petrol a mân-werthwyr sydd â thoiledau i gwsmeriaid, atyniadau twristiaid, parciau a mannau agored. Rydym hefyd wedi ystyried gwasanaethau cyhoeddus eraill, heblaw'r cyngor, ble mae toiledau ar gael.

Casglwyd barn yn ystod haf 2018, gan gyfarfod â phobl mewn grwpiau cymunedol, yng nghanol y trefi ac mewn sesiynau galw heibio ar draws y fwrdeistref. Fe wnaeth ein harolwg ymgysylltu ein helpu i ddeall y problemau y mae pobl yn eu hwynebu gyda thoiledau cyhoeddus yn ogystal â lle maent yn teimlo bod yna gyfleusterau da. Dyma drosolwg cryno o'n canfyddiadau.

### Poblogaeth

Mae gan Dorfaen boblogaeth o tua 92,300 ac wrth i bobl fyw'n hirach, bydd canran y boblogaeth hŷn yn cynyddu. Mae blaenamcaniadau o'r boblogaeth yn dangos y bydd canran y boblogaeth yn Nhorfaen sydd 65 oed a throsodd yn codi o 20.1% yn 2016 i 28.3% yn 2039. Disgwylir y bydd nifer trigolion Torfaen sydd 85 oed a throsodd yn fwy na dyblu yn y 23 mlynedd nesaf, o 2,372 yn 2016 i 5,595 yn 2039; cynnydd o 136% *[tarddiad: Asesiad Lles BGC]*.

Mae cadw pobl yn annibynnol ac yn gallu cymryd rhan yn eu cymunedau lleol yn ffactor bwysig mewn rheoli galw yn y dyfodol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol. Mae "Heneiddio'n Dda" yn rhaglen ryngwladol sy'n cael ei hybu gan Lywodraeth Cymru ac mae Cymunedau Sy'n ystyriol o Oedran yn un rhan o'r rhaglen hon - gan sicrhau fod pobl o bob oed yn gallu mynd at yr amgylchedd naturiol ac sydd wedi ei adeiladu, ymdopi ynddo, a rôl toiledau wrth hwyluso hyn. Mae mynediad at gyfleusterau toiled yn rhan o'r ymdriniaeth hyn.

Mae'r Gymdeithas Toiledau Brydeinig yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r nifer o gyfleusterau toiled y mae eu hangen mewn ardal yn seiliedig ar nifer y boblogaeth, cymysg rhwng y rhywiau a nifer o bobl sy'n ymweld ag ardal. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol ond anogir awdurdodau lleol i fodloni'r argymhellion hyn. Yn ddelfrydol, argymhellir 1 ciwbicl fesul 550 o fenywod ac 1 ciwbicl neu droethfa fesul pob 1100 o ddynion. I Dorfaen mae hyn yn gyfystyr â 95 ciwbicl i fenywod ac i ddynion, 41 ciwbicl a 41 o droethfeydd.

Wrth baratoi'r Strategaeth hon (ym mis Chwefror 2019), roedd y toiledau cyhoeddus sydd ar gael yn Nhorfaen, gan gynnwys y busnesau lleol hynny sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun toiledau cenedlaethol, ychydig y tu ôl i'r cwota hwn a awgrymir ar gyfer menywod, sef 83 ciwbicl. Fodd bynnag, mae nifer o doiledau ar gael

mewn siopau mawr ac archfarchnadoedd sydd heb eu cynnwys gan nad yw'r busnesau hyn eto wedi dangos eu bod yn cytuno i ymuno â'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol. Gwyddom, er nad yw rhai pobl yn hoffi defnyddio toiledau cwsmeriaid mewn busnesau bach, y byddant yn gwneud hynny mewn adeiladau mwy. Gobeithiwn, yn y dyfodol, y bydd y busnesau hyn yn ymuno â'r Cynllun ac felly'n cynyddu'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn ffurfiol.

O ran ciwbiclau a throethfeydd i ddynion, mae'r cyfleusterau presennol yn Nhorfaen yn rhagori ar y gofynion awgrymedig, gyda 49 o giwbiclau a 56 o droethfeydd.

Mae’r Gymdeithas Toiledau Brydeinig hefyd yn awgrymu y dylid darparu un toiled hygyrch ac un cyfleuster newid cewynnau ar gyfer pob 10,000 o bobl. Mae'r toiledau presennol yn Nhorfaen eisoes yn bodloni'r gofynion awgrymedig hyn, gyda 10 ciwbicl newid sy'n unrhyw, pedwar o gyfleusterau newid cewynnau mewn toiledau dynion a chwech mewn toiledau menywod.

**Iechyd**

Mae Asesiad Lles 2017 i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen yn dweud wrthym ni fod gan Dorfaen gyfradd uwch o afiechyd cronig na Chymru ar y cyfan – a dyma’r achos yn y rhan fwyaf o gategorïau, yn arbennig cyfraddau salwch anadlol a lles meddyliol gwael. Mae yna nifer o gyflyrau sy’n arwain at fod pobl angen mynediad aml neu frys at doiled.

Mae ymchwil Cymuned y Bledren a’r Coluddyn [5] yn dangos fod gan tua 14 miliwn o bobl yn y DU broblem rheoli’r bledren (tua 1 o bob 5 o bobl) a bod tua 6.5 miliwn yn dioddef gyda phroblem rheoli’r coluddyn sy’n drafferthus (tua 1 o bob 10 o bobl).

Byddai allosod y ffigyrau yma yng nghyd-destun poblogaeth Torfaen (92,300) yn awgrymu fod gan tua 18,460 o bobl yn Nhorfaen broblem rheoli’r bledren a bod 9,230 o bobl yn Nhorfaen yn dioddef â phroblem rheoli’r coluddyn sy’n drafferthus.

Gall unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol arwain ar afiechyd ac yn yr un ffordd, mae pobl sy’n dioddef gydag afiechyd gyda’r coluddyn neu’r bledren, yn fwy tebygol o fod yn unig neu ar wahân.

Mae yna dystiolaeth sy’n dangos bod unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn gallu arwain at broblemau iechyd corfforol a meddyliol. Mae’r rhain yn broblemau sylweddol sy’n effeithio pobl o bob oed, gan gynnwys ein poblogaeth hŷn. Canfuwyd gan ddata o’r Astudiaeth Gweithrediad Gwybyddol a Heneiddio - Cymru bod 25.3% o bobl hŷn (65 oed a throsodd) yng Nghymru wedi dweud eu bod yn unig a 26.9% eu bod wedi’u hynysu’n gymdeithasol[6].

Yn gyffredinol, roedd 42% o’r rheiny a ymatebodd i’n Harolwg Toiledau Lleol yn cytuno bod digon o gyfleusterau toiled cyhoeddus iddyn nhw allu mynd allan a chwrdd â theulu neu ffrindiau mewn lleoedd cyhoeddus, tra bod 44% yn anghytuno. Mae hyn yn gostwng i 50% o ddefnyddwyr toiledau hygyrch yn cytuno a 37% yn anghytuno, tra bod 38% o ddefnyddwyr Lleoedd Newid yn cytuno a 56% yn anghytuno.

Roedd tua thraean o'r rheiny a ymatebodd (roedd y canrannau'n weddol debyg ar draws y grwpiau defnyddwyr) yn teimlo bod diffyg cyfleusterau toiled addas yn eu hatal rhag mynychu lleoliadau ble cynhelir gweithgareddau hamdden. Roedd ychydig dros draean o'r rheiny a ymatebodd i'r Arolwg Toiledau Lleol yn cytuno bod diffyg toiledau cyhoeddus addas yn eu hatal rhag bod mor weithgar yn gorfforol ag yr hoffen nhw fod. Roedd hyn yn ymateb cyson ymhlith y grwpiau defnyddwyr.

Dylid nodi nad oes gan y Strategaeth hon ddylanwad ac nid ei bwriad yw mynd i'r afael â'r nifer neu'r mathau o doiledau sydd ar gael mewn busnesau preifat, yn cynnwys y rhai sy'n darparu cyfleusterau hamdden ac adwerthu. Fodd bynnag, lle mae busnesau o'r fath yn cytuno i gymryd rhan yn y cynllun toiledau cenedlaethol a chaniatáu i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid ddefnyddio eu cyfleusterau, mae eu lleoliad a'u horiau agor yn cael eu cofnodi mewn mapiau cenedlaethol a lleol a gwybodaeth hyrwyddo sy'n dangos mynediad ehangach at gyfleusterau na'r rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

**Cymudo a Theithio Llesol**

Mae llawer o bobl yn Nhorfaen yn cymudo i weithio yn y fwrdeistref neu i leoedd y tu allan i Dorfaen. Mae yna hefyd bobl sy'n teithio trwy Dorfaen neu i mewn i'r fwrdeistref a hynny'n rhan o'u harferion cymudo dyddiol.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio, cynllunio, gwella a hyrwyddo llwybrau sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer teithio llesol. Ystyr teithio'n llesol yw cerdded a seiclo ar gyfer teithiau byr pob dydd, fel teithiau i'r ysgol, gwaith neu i fynd at siopau neu wasanaethau. Gellir cymudo ar fws, trên neu gar yn ogystal â cherdded neu feicio.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol hon, er ein bod wedi gofyn yn fras i drigolion Torfaen a oeddent wedi cael trafferthion teithio i'r gwaith oherwydd diffyg toiledau, ni wnaethom ymgysylltu â chymudwyr ehangach ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei wneud fel rhan o'r Strategaeth hon i wella ein dealltwriaeth ac i gefnogi'r cynllunio yn y dyfodol.

Dangosodd ein harolwg yn 2018 bod 23% o'r rhai 18-64 oed a ymatebodd yn honni eu bod wedi wynebu anawsterau wrth gymudo i'r gwaith oherwydd diffyg toiledau rhwng eu cartref a'u gweithle. Byddwn yn gwneud mwy o ymchwil er mwyn gwybod y manylion o ran pa mor aml y cafwyd anawsterau, dulliau teithio neu gyfatebiaeth i lwybrau teithio. Tra bod 23% yn destun pryder, trwy ein harolwg daethom i wybod fod 66% o'r rhai a ymatebodd yn y grŵp oedran yma'n teimlo nad oes yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â ble mae toiledau cyhoeddus a'r cyfleusterau y maen nhw'n cynnig, gan awgrymu nad yw rhai, o leiaf, yn y grŵp yma'n ymwybodol o doiledau y gallan nhw eu defnyddio ar y ffordd i'r gwaith.

Mae toiledau i gymudwyr yng ngorsafoedd rheilffordd a bysiau Cwmbrân, safleoedd bysiau Hanbury Road Pont-y-pŵl a sawl gorsaf betrol, yn ogystal â chyfleusterau cyhoeddus eraill ar draws y fwrdeistref.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae yna barcio ar gael yn agos i'r toiledau, er nad yn union y tu allan iddynt bob tro. Nododd rhai pobl ag anableddau bod hyn yn broblem, fodd bynnag, nid yw'r strwythur ffyrdd a phriffyrdd drwy'r cwm yn caniatáu parcio mewn culfannau neu feysydd parcio ger pob toiled cyhoeddus.

Bydd y mapio a'r wybodaeth yr ydym wedi eu cynhyrchu yn caniatáu i bobl wybod lleoliadau'r toiledau a chynllunio eu teithiau'n well.

**Economi Nos**

Mae rhai pobl (gwasanaethau brys, gyrwyr tacsi, dosbarthwyr nwyddau ac eraill) angen mynediad i'r toiled gyda'r nos ac yn ystod y nos pan fydd blociau toiled traddodiadol a gwasanaethau cyhoeddus ar gau. Mae rhai busnesau masnachol ar agor fel archfarchnadoedd 24 awr a gorsafoedd petrol yn ogystal â thafarndai a siopau bwyd.

Bydd y mapio a'r wybodaeth yr ydym wedi eu cynhyrchu yn caniatáu i bobl wybod lleoliadau'r toiledau a phryd y maen nhw ar agor.

**Twristiaeth**

Mae gan Dorfaen nifer o fannau ymwelwyr ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt doiledau i gwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys Pwll Mawr, Gwaith Haearn Blaenafon, Canolfan Dreftadaeth Blaenafon, Parc Pont-y-pŵl, Amgueddfa Pont-y-pŵl, Fferm Gymunedol Greenmeadow, Maenor Llanyrafon, Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange a Llyn Cychod Cwmbrân.

Mae gan atyniadau pellach - fel Theatr y Congress, sinemâu, y Bowlplex, y Ganolfan Gertio, clybiau golff, tafarndai a gwestai - doiledau i gwsmeriaid, yn ogystal â siopau a busnesau yng nghanolfannau siopa Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Mae toiledau rhan-amser yn gysylltiedig â'r siop goffi ym Masn Pont-y-moel ar Gamlas Aberhonddu a Mynwy a bydd canolfan ymwelwyr newydd yn cymryd ei lle mewn amser.

Pan cynhelir digwyddiadau cyhoeddus ar raddfa **fawr**, fel carnifalau neu wyliau, mae yna rheoliadau penodol i ddarparu toiledau dros dro y mae'n rhaid i drefnwyr lynu atynt ac mae swyddogion y cyngor yn goruchwylio hyn pan fyddant yn darparu trwyddedau ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

**Mynediad at Fannau Gwyrdd**

Rydym wedi cydnabod pryderon trigolion ynglŷn â mynediad at fannau gwyrdd; dim ond 1 o bob 5 o'r rhai a ymatebodd i'n Harolwg Toiledau Lleol oedd yn teimlo bod yna ddigon o doiledau i'w galluogi i fynd at fannau gwyrdd a dim ond 1 o bob 10 oedd yn anghytuno y bydden nhw'n mynd at fannau gwyrdd yn fwy aml pe bai yna mwy o doiledau addas.

***Y Gamlas*:**

Nodwydd diffyg toiledau ar hyd darnau sylweddol o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu gan nifer o'r rhai a ymatebodd i'n Harolwg Toiledau Lleol. Er bod rhai busnesau

masnachol (fel tafarndai) ar hyd rhai rhannau, mae Llywodraeth Cymru wedi cael diogelu cyllid gan yr UE i adeiladu Canolfan Weithgareddau i Ymwelwyr ym Masn Camlas Pont-y-moel ym Mhont-y-pŵl. Bydd hyn yn rhan o brosiect cyffredinol gwerth £4 miliwn i drawsnewid Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn ganolfan antur. Mae'r rhaglen o welliannau arfaethedig yn cynnwys y dyhead i uwchraddio'r toiledau ym Mhont-y-moel, gan gynnwys dyluniad a chynllun gwell, cyfleuster newid cewynnau, mynediad i bawb a chyfleusterau newid ar gyfer gweithgareddau campau dŵr.

Byddwn yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda busnesau a grwpiau cymunedol sydd wedi eu lleoli ar rannau eraill o'r gamlas neu'n agos atynt, i'w hannog i agor eu toiledau i'r cyhoedd.

Bydd pawb sy’n cytuno i gymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cenedlaethol yn cael eu hysbysu’n eang er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch mannau hygyrch yn rhwydwaith y gamlas, gan roi i bobl sydd angen defnyddio’r toiled yn rheolaidd yr hyder i fwynhau’r gamlas, gan wella gweithgaredd corfforol a lles meddyliol.

***Parciau:***

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd toiledau mewn parciau neu fannau chwarae neu sy’n agos atynt. Er bod rhai o'r rhain wedi'u cau yn y gorffennol - oherwydd costau trwsio neu gynnal a chadw na ellir eu fforddio - nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gau'r rhai sydd wedi'u lleoli ym Mharc Pont-y-pŵl, Caeau'r De a Llyn Cychod Cwmbrân. Pe bai ein sefyllfa'n newid o ran hyn, byddwn yn gweithio gyda busnesau a grwpiau cymunedol eraill i barhau i ddarparu toiledau yn ein prif barciau neu'n agos atynt.

Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y parciau llai heb doiledau cyhoeddus yn agos. Er ein bod yn awyddus i alluogi teuluoedd i fynd at barciau ar draws y fwrdeistref, nid yw’n sefyllfa ariannol bresennol yn caniatáu i ni ddarparu toiledau mewn lleoliadau o’r fath. Byddwn yn achub ar gyfleoedd yn y dyfodol i weithio gydag unrhyw bartneriaid neu fusnesau newydd mewn ardaloedd lleol a allai agor eu cyfleusterau toiledau i ddefnyddwyr parciau. Hefyd, byddwn yn ymgysylltu â chynghorwyr lleol a grwpiau cymunedol a all gynnig atebion i’r broblem yma mewn lleoliadau penodol.

**Mynediad cyfartal:**

Mae'n bwysig bod pawb yn cael mynediad teg i siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleusterau eraill. Mae'r Strategaeth hon yn ceisio gwella mynediad i doiledau cyhoeddus yn Nhorfaen fel y gall pobl fynd wrth eu busnes bob dydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a hamdden. Er ei bod yn amhosibl darparu toiledau cyhoeddus ym mhob canolfan siopa leol, ym mhob parc neu ger pob man gwyrdd agored, byddwn yn gweithio i ddarparu cyfleusterau lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn fforddiadwy i wneud hynny.

Gall darparu toiledau i bobl ag anabledd neu ar gyfer y rhai sydd angen cyfleusterau i newid cewynnau fod yn gyfyngedig oherwydd diffyg lle a / neu gost. Lle y bo'n bosibl byddwn yn ceisio gwella'r cyfleusterau hyn dros amser, gan chwilio am grantiau a nawdd ariannol a gweithio gyda busnesau a grwpiau cymunedol lle bynnag y bo modd.

Er mwyn cefnogi pobl i ddefnyddio’r cyfleusterau toiled cywir byddwn y gweithio gyda busnesau a masnachwyr lleol yng nghanol ein trefi i agor eu cyfleusterau toiledau hygyrch.

Fel rhan o'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol byddwn yn annog busnesau a grwpiau cymunedol i sicrhau bod eu toiledau cwsmeriaid ar gael i'r cyhoedd ehangach. Byddwn yn edrych ar nawdd, hysbysebu ac unrhyw gyfleoedd eraill i'w hybu i ymuno â'r Cynllun.

Mae'r holl fusnesau sy'n cymryd rhan yn cael eu hyrwyddo drwy'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol gyda'u lleoliadau ar fapiau a manylion am amserau agor, nifer a'r math o doiledau sydd ar gael. Gellir gweld hyn ar sgriniau neu ei lawr lwytho i’w argraffu a gellir cael hyd iddo ar wefan Lle: http://lle.gov.wales/home

Mae gwybodaeth leol ar gael ar: https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx**Diogelwch:**

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r heddlu lleol, swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymunedau lleol i edrych ar yr holl ddigwyddiadau a gofnodir a chymryd camau angenrheidiol a chymesur i fynd i'r afael â'r materion.

**Codi Tâl:**

Er nad yw CBS Torfaen yn codi tâl am doiledau ar hyn o bryd, gallai hyn newid dros amser pe bai cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu lleihau cymaint i'r pwynt y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cefnogi ein trigolion a pharhau i ddarparu gwasanaethau craidd.

Nid ar chwarae bach y byddai gwneud penderfyniad o'r fath gan ein bod yn ymwybodol na allai llawer o bobl fforddio hyd yn oed tâl bychan, a gallai hyn leihau eu gallu i adael eu cartrefi i gymryd rhan mewn bywyd dyddiol a chymunedol. Bydd hyn yn achosi unigedd a, dros amser, gallai leihau eu lles corfforol a meddyliol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ystyried codi tâl yn y dyfodol os bydd angen, a'r unig ffordd i barhau i ddarparu rhai toiledau cyhoeddus, neu'r cyfan ohonynt fydd codi tâl amdanynt.

Awgrymwyd ein bod yn archwilio i gynnal gwasanaeth codi tâl peilot i ganfod ymateb y cyhoedd. Edrychir ar hyn yn y tymor byr, efallai trwy osod toiled dros dro mewn ardal lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cael ei fonitro yn ôl pa mor aml y caiff ei ddefnyddio, p'un a yw'n anfforddiadwy i rai pobl ac, a yw'n gost effeithiol i'r cyngor ei weithredu. Ar adeg cyhoeddi'r strategaeth hon, ni wnaed unrhyw benderfyniad i ddilyn yr awgrym hwn ond rydym yn edrych arno fel un o'n hopsiynau i gynnal neu wella mynediad i doiledau cyhoeddus.

**Cynaliadwyedd:**

Byddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau toiled sy'n ecogyfeillgar ac yn lleihau'r galw ar ein hadnoddau naturiol. Mae yna nifer o ffyrdd i leihau defnyddio dŵr a phŵer a phan fyddwn yn ailwampio toiledau sy'n eiddo i'r cyngor byddwn yn

ceisio gosod gwasanaethau newydd sy'n ecogyfeillgar lle bynnag y bo'n rhesymol ac ymarferol i ni wneud hynny. Dylid ystyried opsiynau fel toiledau gwrtaithadwy, heb ddŵr, goleuadau sy’n defnyddio pŵer yr haul a ffactorau fel fflysio effeithlon.

Byddwn hefyd yn annog unrhyw fusnesau preifat sy'n adnewyddu neu'n datblygu toiledau newydd fydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, i fabwysiadu dulliau ecogyfeillgar lle bynnag y bo'n rhesymol ac yn ymarferol iddynt wneud hynny.

## MATHAU O DOILEDAU

**Toiledau Cyffredinol:** Blociau toiledau traddodiadol yw'r rhain fel arfer, gyda mynedfeydd ar wahân i ddynion a merched. Mae gan doiledau dynion nifer o droethfeydd ac un neu fwy o giwbiclau. Mae yna ardal ar y cyd i olchi dwylo. Fel arfer mae gan doiledau merched nifer o giwbiclau toiled a lle i olchi dwylo ar y cyd.

**Toiledau niwtral o ran rhyw:** Rhes o giwbiclau unigol yw'r rhain fel arfer heb unrhyw le ar y cyd i olchi dwylo. Darperir cyfleusterau golchi dwylo ym mhob ciwbicl. Gall pawb eu defnyddio, waeth beth fo'u rhyw. Gan nad oes ganddynt le ble y gall pobl gasglu, ystyrir bod y toiledau hyn yn gyfleusterau mwy diogel gan y cyhoedd a chan wasanaethau diogelwch.

**Toiledau Hygyrch:** Weithiau gelwir y rhain yn Doiledau Anabl gydag un neu fwy o giwbiclau ar gael i ddynion a menywod. Yn aml yn ddigon mawr i dderbyn cadair olwyn, y tu mewn maent yn darparu canllawiau, basnau ymolchi lefel isel a pheiriannau sychu dwylo, ac weithiau mae ganddynt linyn tynnu i alw am gymorth yn achos argyfwng. Nid oes gan bob toiled cyhoeddus yn Nhorfaen Doiled Hygyrch.

**Lleoedd Newid:** Ciwbiclau mwy yw'r rhain gyda theclyn codi, canllawiau, mainc newid a chyfleusterau i bobl ag anableddau difrifol i ddefnyddio toiled neu gael eu newid gyda chymorth eu gofalwr. Mae'r cyfleusterau hyn yn caniatáu i bobl ag anableddau dwys neu ddifrifol gael cyfle cyfartal i fynd allan yma ac acw mewn cymunedau lleol. Mae mwy o wybodaeth am doiledau Lleoedd Newid ar gael yn ***atodiad 1***.

Ar hyn o bryd un toiled Lleoedd Newid yn unig sydd yn Nhorfaen, wedi'i leoli yn siop Asda yng Nghwmbrân.

**Toiledau RADAR:** Mae RADAR (*Royal Association for Disability and Rehabilitation*) yn gweithredu Cynllun Allwedd Cenedlaethol (NKS) i doiledau anabl y mae'n rhaid eu cloi i atal difrod a chamddefnydd. Mae allwedd RADAR yn allwedd 'pob clo' sy'n agor dros 10,000 o doiledau i'r anabl yn y DU.

Mae toiledau gyda chloeon RADAR neu NKS i'w cael mewn canolfannau siopa, tafarndai, caffis, siopau adrannol, gorsafoedd bysiau a threnau a llawer o leoliadau eraill ymhob cwr o'r wlad.

Mae Cynllun Allwedd RADAR yn golygu y gellir cloi'r toiledau i'r anabl er mwyn atal fandaliaeth a chamddefnydd, felly gall cwsmeriaid fod yn hyderus y bydd y toiledau hyn ar gael i ddiwallu eu hanghenion.

TORFAEN COUNTY BOROUGH | BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Yn Nhorfaen gellir prynu allweddi RADAR o’r mannau canlynol:

Age Connects Torfaen, East Avenue, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl NP4 5AB.

Argos, 2-4 Monmouth Walk, Cwmbrân NP44 1PE.

Argos, 16 Crane Street, Pont-y-pŵl NP4 6LY.

Bush Healthcare, 33 Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1PQ.

Haven Mobility, Uned 14, Stad Ddiwydiannol Avondale, Cwmbrân NP44 1UG

Cludiant Cymunedol Torfaen/Shopmobility, 32 Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1PL.

Rydym yn deall nad oes angen profi pwy ydych chi ac nad oes angen dogfennaeth i brofi anabledd, felly gall gofalwyr a theuluoedd brynu allweddi i rywun ag anabledd.

Mae sawl ffynhonnell ar-lein os hoffech chi chwilio am ‘brynu allwedd radar '.

Mae'r costau'n amrywio'n fawr ymhob man, o £1.80 i £10 neu fwy, yn dibynnu ar y metel a ddefnyddir a'r arddull. Mae un allwedd yn ffitio pob toiled RADAR sy'n rhan o'r cynllun ar draws y DU.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar brynu Allwedd Radar ar y gwefannau canlynol:
https://www.radarkeys.org/prices.php

https://www.bluebadgecompany.co.uk/blog/radar-keys-locked-disabled-toilets-explained/

**Newid Cewynnau Babanod** Mae'r rhain naill ai'n giwbiclau pwrpasol o fewn bloc toiledau neu fainc fechan sy'n disgyn i lawr mewn ardal gymunedol rhai cyfleusterau. Maent ar gyfer rhieni, neiniau a theidiau neu ofalwyr i newid cewynnau babanod a phlant ifanc a'u galluogi i ddefnyddio'r toiled. Mewn rhai mannau dim ond mewn toiledau merched y gellir dod o hyd iddynt. Mae bellach yn cael ei gydnabod ledled y DU y dylai'r cyfleusterau hyn fod ar gael i ddynion, yn ogystal â menywod sy'n gofalu am fabanod a phlant, ac mae mannau newid cewynnau ar wahân yn cael eu datblygu mewn rhai mannau.

Gellir gweld gwybodaeth am y lleoliad a'r math o doiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn Nhorfaen ar:
https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

## CYFLEUSTERAU PRESENNOL

Fel y soniwyd yn y cyflwyniad uchod, mae CBS Torfaen wedi bod yn rhan o Gynllun Toiledau Cymunedol ac mae'n rhoi gwybodaeth ar y cyfleusterau sydd ar gael gan yr awdurdod lleol a rhai busnesau lleol eraill. Ychwanegwyd y wybodaeth a gasglwyd wrth ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol hon a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor; gall pobl ei lawr lwytho ar ffonau clyfar a chyfrifiaduron. I'r rhai sy'n ffafrio copi wedi ei argraffu, gallant naill ai ei lawr lwytho i argraffu'r ddogfen eu hunain neu byddwn yn gweithio gyda (ac yn hysbysebu) lleoedd sy'n cytuno i argraffu a dosbarthu copi ar gais:

https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

*Noder y gall taflenni wedi'u hargraffu fod yn hen, gan fod gwybodaeth ar-lein yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.*

Mae gwybodaeth bellach wedi'i chasglu ar lefel Cymru gyfan i fapio toiledau a chefnogi strategaethau toiledau lleol trwy nodi sefydliadau a busnesau ychwanegol sy'n cymryd rhan.

Bydd yr holl wasanaethau cyhoeddus a busnesau preifat sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cenedlaethol yn arddangos y logo cenedlaethol (yn y llun isod) fel bod pobl yn gwybod bod croeso iddynt ddefnyddio'r toiled heb orfod defnyddio'r busnes hwnnw na phrynu ganddo.




Pan welwch yr arwydd hwn, mae'n golygu bod croeso ichi ddefnyddio'r toiled

When you see this sign, it means you are welcome to use the toilet

TORFAEN COUNTY BOROUGH | BWRDEISTREF SIROL TORFAEN




Lle bynnag y gwelwch yr arwydd hwn yng Nghymru, mae’n golygu bod croeso ichi ddefnyddio’r toiled

Wherever you see this sign in Wales, it means you are welcome to use the toilet

**Toiledau cyhoeddus sy’n eiddo i’r awdurdod lleol ac yn cael eu rhedeg ganddo**

Pan fo pobl yn clywed ‘toiledau cyhoeddus’, maen nhw’n meddwl yn syth am flociau toiledau cyhoeddus, traddodiadol. Fel arfer mae’r rhain yn flociau ar eu pen eu hunain ac wedi eu hadeiladu’n bwrpasol gan ddarparu mannau ar wahân i Fenywod, Dynion ac, yn fwy diweddar, uned hygyrch i bobl anabl. Yn genedlaethol, mae toiledau o'r fath yn symud i giwbiclau unigol, niwtral o ran rhywedd, gyda chyfleusterau golchi dwylo ym mhob ciwbicl. Gall y rhain ei wneud yn fwy diogel i bawb eu defnyddio gan nad oes lle cymunedol cyffredin i bobl ymgynnull ynddynt.

Ym mis Mai 2019, mae gan CBS Torfaen bortffolio o bum bloc toiled traddodiadol wedi'u lleoli yn:
Blaenafon (Lion Street);
Parc Pont-y-pŵl;
Neuadd y Dref Pont-y-pŵl (Hanbury Road);
Llyn Cychod Cwmbrân a;
Caeau’r De (toiledau ac ystafelloedd newid ar gyfer chwaraeon), Llanyrafon.

Nid yw’r ddau floc hŷn ym Mhont-y-pŵl yn cynnwys toiledau hygyrch, er bod toiledau hygyrch ar gael yn weddol agos, yng Nghanolfan Byw’n Egnïol Pont-y-pŵl (wrth ymyl bloc toiledau Parc Pont-y-pŵl) a Llyfrgell Pont-y-pŵl (wrth ymyl Bloc Toiledau Neuadd y Dref).

Mae CBS Torfaen yn gyfrifol am gynnal a chadw, rheoli a glanhau'r blociau yma ac mae’n cyflogi staff sy’n edrych ar ôl y cyfleusterau yma.
Gwariodd y Cyngor tua £31k yn 2017/18 yn gweithredu toiledau cyhoeddus ‘annibynnol 'yr awdurdod lleol. Roedd y costau hyn yn cynnwys atgyweiriadau (gweithlu a deunyddiau), archwiliadau cydymffurfio, trydan, ardrethi annomestig, dŵr, sebon, defnyddiau tafladwy ac offer glanhau, casgliadau glanweithiol ac amser staff i agor a chau. Ar hyn o bryd mae Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl yn gwneud cyfraniad ychwanegol tuag at gynnal bloc toiledau Hanbury Road.

Mae'r costau sy'n ymwneud â thoiledau mewn adeiladau cyhoeddus yn rhan o orbenion pob adeilad unigol ac nid ydynt yn rhan o'r ffigur uchod.

Y sefyllfa ym mis Mawrth 2019, yw nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gau unrhyw rai o'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor, na lleihau'r gyllideb. Fodd bynnag, os bydd angen i'r cyngor ailystyried ei sefyllfa yn y dyfodol oherwydd pwysau cyllidebol, bydd y Strategaeth hon yn darparu ffordd o weithio gyda phartneriaid i geisio darparu cyfleusterau amgen.

**Adeiladau CBS Torfaen sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd**

Yn ogystal â'r blociau toiledau traddodiadol, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod y cyfleusterau toiled yn adeiladau CBS Torfaen ar gael i'r cyhoedd pan fo'r lleoliad, mynediad ac amgylchiadau'n caniatáu hynny, er enghraifft yn y llyfrgelloedd, canolfannau dysgu oedolion a rhai o swyddfeydd y cyngor. Mae'r cyfleusterau hyn yn golygu y gellir darparu toiledau cyhoeddus yn ystod oriau swyddfa i aelodau o'r gymuned. Fe'u rhestrir yn ein gwybodaeth ar-lein a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu diweddaru er mwyn i bobl allu cael hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf wrth chwilio am doiled lleol.

**Safleoedd eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a grwpiau cymunedol sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd**

Mae yna nifer o wasanaethau cyhoeddus eraill yn y fwrdeistref sy'n cefnogi pobl i fynd at gyfleusterau toiled yn ystod oriau busnes. Mae'r rhain yn cynnwys y pedair canolfan sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen a phum sefydliad arall yn y trydydd sector. Mae'r adeiladau hyn wedi'u lleoli ym Mlaenafon, Garndiffaith, Pont-y-pŵl a dwy ardal wahanol yng Nghwmbrân, ac maent hefyd wedi'u rhestru yn ein gwybodaeth ar-lein. Mae Cyngor Cymuned Croesyceiliog a Llanyrafon yn prydlesu, ariannu a gweithredu'r toiledau cyhoeddus yn Woodland Road, Croesyceiliog, Cwmbrân yn gyfan gwbl.

Mae ymgysylltiad pellach gyda gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau yn y trydydd sector a grwpiau cymunedol yn rhan o'n dull strategol o ehangu mynediad at doiledau ar draws y fwrdeistref.

**Busnesau sy'n agor eu toiledau i'r cyhoedd**

Mae nifer o'r toiledau sy'n cael eu darparu gan fusnesau masnachol a manwerthu at ddefnydd cwsmeriaid yn unig neu'n bennaf. Mae rhai siopau'n deall bod pobl yn dod i mewn i ddefnyddio'r toiledau ac yn cydnabod y gallai hyn arwain at bobl yn prynu nwyddau tra eu bod yno.

Mae Canolfan Siopa Cwmbrân yn berchen ar, ac yn rheoli toiledau cyhoeddus yng nghanol y dref, yn yr Orsaf Fysiau ac yn y maes parcio tanddaearol yn Monmouth Square. Mae toiledau hygyrch yn y ddau leoliad hyn.

Mae Parc Manwerthu Cwmbrân yn darparu gofod mawr manwerthu i nifer o siopau cadwyn cenedlaethol sefydledig, ac mae dau o'r rhain yn darparu toiledau i'w defnyddio gan gwsmeriaid. Mae gan leoliadau hamdden ac adloniant fel y sinema,

lleiniau bowlio a champfeydd /canolfannau chwaraeon preifat i gyd gyfleusterau toiled at ddefnydd cwsmeriaid.

Dywedodd llawer o bobl wrthym yn ystod ein harolwg eu bod yn teimlo'n anghyfforddus pan fyddant yn defnyddio toiledau mewn busnes masnachol os nad ydynt yn prynu unrhyw beth. Mae cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cenedlaethol ac arddangos y logo (fel tudalen 17) yn anelu at ddileu'r teimlad hwn o rwymedigaeth i brynu neu euogrwydd os na fyddwch chi'n prynu rhywbeth.

Er mwyn ehangu nifer y toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd, byddwn yn ymgysylltu â busnesau ledled Torfaen gan eu hannog a'u cefnogi i ymuno â'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol ac arddangos y logo.  Byddwn yn edrych ar opsiynau fel nawdd, hysbysebu am ddim i fusnesau sy'n cymryd rhan a mynediad i gynlluniau noddedig i dderbyn cynnyrch toiledau ac offer glanhau am ddim.

**AMSERAU AGOR**

Mae’r awdurdod lleol yn anelu at ddarparu mynediad i doiledau sy’n cael eu cynnal gan y Cyngor am gyhyd â phosibl am saith diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, mae nifer y staff fydd ar gael, ystyriaethau cyllidebol a rhai pryderon ynglŷn â diogelwch yn golygu bod cyfleusterau annibynnol yn cael eu cloi ar amser a drefnwyd, yn gynnar yn y nos.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r heddlu lleol, swyddogion ymddygiad gwrthgymdeithasol a chymunedau lleol i edrych ar yr holl ddigwyddiadau a gofnodir, a chymryd camau angenrheidiol a chymesur i fynd i'r afael â'r materion.

Mae defnydd o gyfleusterau sy’n cael eu darparu gan siopau a sefydliadau eraill yn gyfyngedig i’w horiau agor. Felly hefyd mae toiledau sydd gan sefydliadau yn y trydydd sector a chynghorau cymuned yn eu hadeiladau weithiau ar gael, ond dim ond pan fo staff yn bresennol.

Mae cyfleusterau toiledau 24 awr ar gael yng Ngorsaf Betrol Folly Tower ar gyrion Pont-y-pŵl ac yn Asda yng Nghwmbrân, gan roi dewis i bobl sy’n teithio neu’n gweithio yn ystod y nos, tra bod nifer o archfarchnadoedd a thafarndai yn agor yn hwyr yn y nos.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am leoliad, y math o doiled sydd ar gael a'u hamseroedd agor ar ein data mapio lleol neu ein taflenni hyrwyddo ar-lein. *Cofiwch y gall taflenni wedi'u hargraffu fod yn hen.*

https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

Mae hyn yn cynnwys toiledau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cenedlaethol, gan gynnwys toiledau sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor, y rhai a ddarperir mewn adeiladau gwasanaethau cyhoeddus (fel ein llyfrgelloedd a'r Ganolfan Ddinesig ym Mhont-y-pŵl) a'r rhai a ddarperir mewn busnesau masnachol neu adeiladau sy'n eiddo i'r gymuned.

## EIN CYNLLUN (NEU STRATEGAETH) I DDARPARU MYNEDIAD I DOILEDAU YN NHORFAEN

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu yn ystod y 12 mis diwethaf ac a nodwyd yn adrannau blaenorol y ddogfen hon, dyma sut y byddwn yn gweithio i ganiatáu i'r cyhoedd gael mynediad i doiledau yn Nhorfaen.

### Toiledau glân, diogel sydd mewn cyflwr da

- Byddwn yn parhau i reoli toiledau sy'n eiddo i'r cyngor, a hynny mewn ffordd effeithiol, gan ystyried yr amgylchedd, diogelwch ac ystyriaethau ariannol mewn perthynas â gwresogi, goleuo a nwyddau glanweithio eraill.

- Byddwn yn glanhau a chynnal a chadw'r toiledau yr ydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli'n uniongyrchol, a hynny'n rheolaidd.

- Bydd CBS Torfaen yn adolygu gweithgareddau a safonau glanhau yn achlysurol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael.

- Bydd ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, trigolion, grwpiau cymunedol ac eraill pan fo'r angen, er mwyn sicrhau bod toiledau yn Nhorfaen mor ddiogel â phosibl.

- Wrth adnewyddu toiledau sy'n eiddo i'r cyngor - a phan fyddwn yn gweithio gyda busnesau preifat ar adnewyddu neu ddatblygu toiledau cyhoeddus newydd - byddwn yn ceisio gosod systemau cynaliadwy sy'n ecogyfeillgar lle bynnag y bo hynny'n rhesymol ac ymarferol.

### Cyfleusterau hygyrch i bawb, ym mhob lleoliad ymarferol

- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y toiledau hygyrch a lleoedd newid.

- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y cyfleusterau newid cewynnau y gellir eu defnyddio gan ddynion a menywod sy'n gofalu am fabanod a phlant ifanc.

- Byddwn yn edrych yn rheolaidd ar gyfleoedd ariannu ac yn gweithio gyda busnesau lleol a grwpiau cymunedol i wella'r ddarpariaeth toiledau lleol.

- Lle nad oes toiledau hygyrch mewn blociau toiled sy'n eiddo i'r cyngor, byddwn yn darparu arwyddion i ddangos cyfleusterau cyfagos y gall pobl eu defnyddio. Bydd yr arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Ystyriaethau Daearyddol

- Byddwn yn edrych yn rheolaidd ar ardaloedd yn Nhorfaen lle nad oes toiledau cyhoeddus ar gael a, lle mae cyfleoedd yn codi, byddwn yn gweithio gydag aelodau cynghorau lleol, cynghorau tref a chymuned a thrigolion lleol i ddod o hyd i atebion lle bynnag y bo modd.
- Lle bo modd, byddwn yn gweithio gyda busnesau lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu toiledau yn yr ardaloedd hyn neu gerllaw, i'w defnyddio gan y cyhoedd.

- Byddwn yn ymgysylltu â'r boblogaeth gymudo ehangach ac yn rhoi gwybodaeth well iddynt am y toiledau sydd ar gael ar eu cyfer. Os byddant yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth, bydd hyn yn rhan o'r gwaith uchod, lle byddwn yn gweithio gydag aelodau cynghorau lleol, trigolion a busnesau lleol i chwilio am gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth toiledau lle y gallwn.

- Byddwn yn edrych ar grantiau a ffynonellau ariannu eraill y gellir eu defnyddio i ddarparu toiledau ychwanegol neu, i wella niferoedd y toiledau hygyrch a lleoedd newid sydd ar gael.

- Byddwn yn edrych ar nawdd a ffyrdd eraill a all annog busnesau a grwpiau cymunedol i gefnogi darparu toiledau lleol.

- Efallai y bydd yn rhaid i ni ystyried codi tâl mewn rhai lleoliadau a byddwn yn archwilio a ydym yn cynnal peilot i ganfod ymateb y cyhoedd i hyn.

- Rydym yn cadw'r hawl i ystyried codi tâl am ddarpariaeth toiledau ehangach petai hyn yn dod yn anghenraid ariannol i'r Cyngor, a'r unig ffordd byddai gennym i barhau i ddarparu toiledau yn Nhorfaen.

**Gweithio gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, busnesau lleol a grwpiau cymunedol**

- Byddwn y gweithio gyda phobl leol i fynd at fusnesau a grwpiau cymunedol i drafod ffyrdd o wneud eu toiledau i gwsmeriaid yn hygyrch i bawb.

- Byddwn yn annog i leoedd sy'n cymryd rhan i arddangos sticer logo'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol mewn lle amlwg (h.y. wrth y fynedfa, neu mewn ffenestr os yw'n fwy gweladwy), sy'n dangos bod y toiledau ar gael i'r cyhoedd. Darperir y sticeri hyn yn rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru a'u dosbarthu gan swyddogion y cyngor i leoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

- Yn lleol byddwn yn edrych ar gyflwyno sticeri am ddim fel ateb digost / cost isel yn ogystal â'r logo uchod, gan bwysleisio bod a) toiled hygyrch, a, b) safle newid cewynnau ar gael.

**Gwybodaeth a hyrwyddo cyfleusterau lleol**

- Byddwn yn darparu gwybodaeth am yr holl doiledau yn Nhorfaen sydd ar gael i'r cyhoedd, p'un a ydynt yn cael eu darparu gan y cyngor fel blociau toiled annibynnol, o fewn adeiladau'r cyngor ac adeiladau gwasanaethau cyhoeddus eraill neu, yn cael eu darparu gan fusnesau masnachol a grwpiau cymunedol.

- Darperir y wybodaeth hon yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar-lein a'i diweddaru'n rheolaidd.

- Byddwn yn darparu copïau wedi'u hargraffu ar gais yn ein Canolfannau Gofal Cwsmeriaid a'n Llyfrgelloedd.

- Byddwn yn gweithio gyda busnesau lleol a grwpiau cymorth y trydydd sector, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i lawr lwytho ac argraffu copïau ar gyfer pobl nad oes ganddynt fynediad ar-lein.

- Dylai pobl sy'n defnyddio gwybodaeth argraffedig fod yn ymwybodol y gall taflenni o'r fath fod yn hen, gan y bydd gwybodaeth ar y wefan yn newid o bryd i'w gilydd.

- Byddwn yn cyhoeddi'r wefan fapio genedlaethol ac yn hyrwyddo'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol sy'n nodi'r holl doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu pobl i gynllunio eu teithiau y tu allan i Dorfaen yn ogystal ag yn y fwrdeistref ac o'i chwmpas.

- Byddwn yn hyrwyddo gwybodaeth am Gynllun Toiledau Torfaen a'r Cynllun Toiledau Cenedlaethol gyda gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithredu yn Nhorfaen (iechyd, yr heddlu, tai, canolfannau hamdden a chynghorau tref a chymuned) yn ogystal â gwasanaethau blaen y cyngor fel llyfrgelloedd a chanolfannau gofal cwsmeriaid.

- Byddwn yn hyrwyddo'r wybodaeth hon gyda grwpiau trydydd sector a grwpiau cymunedol a byddwn yn eu postio ar hysbysfyrddau cymunedol.

- Byddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, radio lleol a sianelau cyfathrebu eraill i hyrwyddo toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Nhorfaen.

Fel canllaw cyflym, gweler y ‘Strategaeth ar Dudalen’ yn ***atodiad 2.***

**YMGYSYLLTU, YMGYNGHORI A CHRAFFU**

Wrth baratoi'r Strategaeth hon, cynhaliwyd arolwg o anghenion yn ystod haf 2018. Defnyddiom Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a'r canllawiau statudol cysylltiedig i ddatblygu'r asesiad o anghenion am doiledau a strategaeth ddrafft.

Fe wnaethom gyfarfod ag aelodau'r cyhoedd i glywed eu barn ar doiledau cyhoeddus yn Nhorfaen. Roedd rhywfaint o hyn ar sail un i un dros y ffôn neu wyneb yn wyneb; roedd peth ohono mewn sesiynau grŵp. Roedd aelodau'r cyhoedd y gwnaethom gyfarfod â nhw yn cynnwys pobl ifanc, rhieni babanod a phlant ifanc, pobl anabl, gofalwyr a phobl hŷn.

Fe wnaethom hyrwyddo'r strategaeth ddrafft a'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor.

Fe wnaethom ofyn i'n partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus - ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tai Bron Afon, Cartrefi Melin, y chwe chyngor tref a chymuned, Cynghrair Wirfoddol Torfaen a gwasanaethau'r trydydd sector, Heddlu Gwent a Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru - i hyrwyddo'r Strategaeth ddrafft ac annog pobl i roi eu barn i ni.

Gwnaethom ymgynghori ar y strategaeth ddrafft gydag aelodau o'r cyhoedd a'r grwpiau cymunedol hynny a oedd wedi'n cynorthwyo i asesu'r angen am doiledau.

Rhannodd aelodau etholedig CBS Torfaen eu barn ar y strategaeth ddrafft mewn sesiwn graffu a throsolwg trawsbynciol.

Rydym wedi ystyried yr holl wybodaeth a dderbyniwyd i lunio'r strategaeth derfynol hon.

Gellir gweld crynodeb o sylwadau'r ymgynghoriad yn ***atodiad 3.***

## ADOLYGU, ADRODD A DIWYGIO

Mae’r Ddeddf yn gofyn bod awdurdodau lleol yn ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o’r Strategaeth leol ac yn rhoi adroddiadau cynnydd. Dylid gwneud y rhain ar gylchdro o ddwy flynedd, ac eithrio pan fod yna etholiad awdurdod lleol cyffredinol ac mewn sefyllfa felly dylid adolygu o fewn blwyddyn i’r etholiad a dylid naill ai ail-ddrafftio’r Strategaeth neu dylid rhoi adroddiad cynnydd dros dro.

Mae’r amserlen ar gyfer ein cylchdro adolygu ac adrodd arfaethedig yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| Adolygiad statudol ac adroddiad cynnydd dros dro ar gyfer y cyfnod 30ain Mai 2019 hyd 30ain Mai 2021. | Mehefin i Hydref 2021 |
| Sicrhau cymeradwyaeth gan y Cabinet a chyfieithu i’r Gymraeg | Hydref a Thachwedd 2021 |
| **Cyhoeddi adroddiad cynnydd dros dro (dwyieithog) ar y wefan** | 30ain Tachwedd 2021 |
| Adolygu o fewn un flwyddyn o etholiad awdurdod lleol (5ed Mai 2022). | Erbyn 4ydd Mai 2023 |
| Os oes newidiadau i’r Strategaeth, ail-gyhoeddi’r ddogfen a gymeradwywyd yn llawn (dwyieithog). | Erbyn 3ydd Tachwedd 2023 |
| Os nad oes newidiadau i’r Strategaeth, paratoi adroddiad cynnydd dros dro ar gyfer 22ain Tachwedd 2022 hyd 22ain Tachwedd 2024. | Rhagfyr 2024 i Ebrill 2025 |
| Sicrhau cymeradwyaeth gan y Cabinet a chyfieithu i’r Gymraeg | Ebrill / Mai 2025 |
| Cyhoeddi adroddiad cynnydd dros dro (dwyieithog) ar y wefan | Erbyn 22ain Mai 2025 |
| **Ailadrodd y broses adolygu hon a llunio datganiadau cynnydd dros dro pob 2 flynedd neu o fewn blwyddyn o etholiad awdurdod lleol** | |

**CYFEIRNODAU**

---

[1] Holt-Lunstad, 2015 / Hawkley et al, 2010
https://www.ahsw.org.uk/userfiles/Research/Perspectives%20on%20Psychological%20Science-2015-Holt-Lunstad-227-37.pdf

[2] Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru – Rhan 8
https://gov.wales/topics/health/nhswales/act/publictoilets/?lang=en

[3] Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen 2017
http://www.torfaenpublicservicesboard.co.uk/en/Documents/Assessment-of-Well-being/Part-1-Torfaen-Well-being-Assessment.pdf

[4] Asesiad Anghenion y Boblogaeth  Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2017http://www.gwentrpb.wales/population-needs-assessment

[5] Ymchwil Cymunedol ar y Bledren a'r Coluddyn https://psnc.org.uk/south-staffordshire-lpc/wp-content/uploads/sites/95/2015/02/BowelProblems.pdf

[6] Astudiaeth Gweithrediad Gwybyddol a Heneiddio - Cymru
http://www.cfas.ac.uk/cfas-wales/

**ATODIADAU (gweler y ddogfen ar wahân)**

https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsTravelParking/StreetCareandCleaning/Publicconveniences/PublicaccesstotoiletsinTorfaen.aspx

Atodiad 1: Gwybodaeth fanwl ar Leoedd Newid

Atodiad 2: Strategaeth ar Dudalen

Atodiad 3: Crynodeb o'r ymgysylltu ac ymatebion i'r ymgynghoriad

**ATODIADAU I STRTEGAETH TOILEDAU LEOL TORFAEN:**
**(i'w gyhoeddi ar 31 MAI 2019)**




**Atodiad 1: Cynllun cenedlaethol Lleoedd Newid**

**Atodiad 2: Strategaeth ar Dudalen**

**Atodiad 3: Crynodeb o'r ymgysylltu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

**ATODIAD 1**

**Cynllun cenedlaethol Lleoedd Newid**

Mae toiledau hygyrch safonol fel arfer yn giwbicl fwy sy'n darparu rhai canllawiau, basnau ymolchi lefel isel a pheiriannau sychu i gynorthwyo pobl sy'n anabl / defnyddio cadeiriau olwyn. Nid ydynt yn diwallu anghenion pawb sydd ag anabledd.

Yn aml, mae pobl sydd ag anableddau dysgu dwys a lluosog, yn ogystal â phobl ag anableddau corfforol fel anafiadau i'r cefn, dystroffi'r cyhyrau a sglerosis ymledol, angen offer a lle ychwanegol i'w galluogi i ddefnyddio'r toiledau yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae toiledau 'Lleoedd Newid' yn diwallu'r anghenion hyn.

Mae pob toiled yng nghynllun ‘Lleoedd Newid’ yn darparu’r:

Offer cywir:

- mainc newid maint oedolyn y gellir ei addasu
- system teclyn codi ar drac, neu declyn codi symudol os nad yw hyn yn bosibl

Digon o le:

- digon o le yn yr ardal newid i berson anabl a hyd at ddau ofalwr
- toiled wedi'i osod yn ganolog gyda lle y naill ochr a'r llall
- sgrin neu len i ganiatáu rhywfaint o breifatrwydd

Amgylchedd diogel a glân:

- rholyn papur llydan y gellir ei rhwygo i orchuddio'r fainc
- bin gwastraff mawr ar gyfer padiau tafladwy
- llawr gwrth-lithr

Mae toiledau Lleoedd Newid yn wahanol i doiledau hygyrch safonol (neu "doiledau anabl") a, lle bo hynny'n bosibl, dylid eu darparu yn ogystal â thoiledau hygyrch. Mae gan doiled *Lleoedd Newid* ddimensiynau a gofynion penodol a ni ellir eu cynnwys yng nghategori Lle Newid os nad yw'n bodloni'r Safon, yn seiliedig ar BS8300: 2009.

Ar hyn o bryd mae un cyfleuster toiled Lleoedd Newid yn Nhorfaen, sydd wedi ei leoli yn:

- Uwchfarchnad ASDA Cwmbrân, Llewelyn Road, Cwmbrân, NP44 1UL

Byddai angen cyllid sylweddol i ddatblygu Lleoedd Newid Newydd. Ar amcangyfrif, gall costau offer toiled Lleoedd Newid amrywio ond maent rhwng £12,000 a £15,000 gan gynnwys TAW [*ffynhonnell: www.changing-places.org*]. Fodd bynnag, bydd costau offer yn amrywio yn ôl yr offer penodol a ddewisir.

Mae costau pellach i ddarparu toiled Lleoedd Newid a bydd y rhain yn amrywio yn ôl y lleoliad. Er enghraifft:

- costau adeiladu os oes angen gwneud newidiadau strwythurol i adeilad presennol
- costau cynnal a chadw
- costau diogelwch

Bydd CBS Torfaen yn cefnogi ein meysydd gwasanaeth a sefydliadau allanol i gael gafael ar gyllid i ddarparu cyfleusterau Lleoedd Newid newydd yn Nhorfaen.

## ATODIAD 2: STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL AR DUDALEN

Cyfraith Llywodraeth Cymru - Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal asesiad anghenion o doiledau lleol a chynhyrchu Strategaeth Toiledau Lleol erbyn 31 Mai 2019

Mae CBS Torfaen yn darparu toiledau cyhoeddus mewn tair prif dref ac mewn mannau eraill

Mae toiled Lleoedd Newid yn Asda yng Nghwmbrân

Mae rhai pobl yn defnyddio toiledau mewn siopau mawr

Mae toiledau hefyd ar gael yng Nghanolfan Siopa Cwmbrân

Mae Cyngor Torfaen yn darparu gwybodaeth am doiledau cyhoeddus ar ei wefan

Gwnaethom siarad â llawer o bobl yn ystod 2018 a dywedwyd wrthym:

Nad yw rhai toiledau'n cael eu glanhau'n ddigon aml

Mae rhieni'n cael trafferthion o ran lle i gadeiriau gwthio

Weithiau, dim ond mewn toiledau merched y mae ciwbiclau newid cewynnau ac nid ydynt o unrhyw ddefnydd i dadau â babanod

Nid oes digon o doiledau hygyrch, yn enwedig ym Mhont-y-pŵl - a mynediad cyfyngedig iawn sydd iddynt ar brynhawn dydd Llun

Mae lleoedd eraill yn Nhorfaen lle nad oes toiledau cyhoeddus

Rydym wedi mapio'r holl doiledau yn Nhorfaen sy'n agored i'r cyhoedd

Ar hyn o bryd mae pob toiled am ddim yn Nhorfaen

Mae arwydd cenedlaethol newydd a gallwch ddefnyddio'r toiled mewn mannau sy'n dangos yr arwydd hwn

Bydd y wybodaeth hon ar gael ar wefan Torfaen ac ar wefan mapio toiledau Cymru

Byddwn yn ychwanegu unrhyw doiledau newydd sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd wrth iddynt ddod ar gael

**Efallai** y bydd yn rhaid i ni ystyried codi tâl yn y dyfodol os dyna'r unig ffordd y gallwn barhau i ddarparu toiledau i'r cyhoedd




**Bydd y Strategaeth yn ymdrechu i:**

**Wella'r toiledau cyhoeddus sydd ar gael yn raddol - ailosod offer neu wneud gwell defnydd o ofod**

**Cynyddu nifer y cyfleusterau newid cewynnau i dadau**

**Cynyddu nifer y Lleoedd Newid a thoiledau hygyrch (chwilio am gyllid)**

**Gwella gwybodaeth**

**Cadw nifer y toiledau sydd ar gael o leiaf. Os bydd unrhyw doiled yn cau byddwn yn ceisio dod o hyd i doiled arall yn yr ardal gyfagos**

**Cynyddu niferoedd y toiledau sydd ar gael.**

**ATODIAD 3**

**Crynodeb o'r ymgysylltu a'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cynhaliodd staff Cyngor Torfaen sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb mewn amrywiaeth o fannau cymunedol. Trefnwyd y sesiynau hyn ar ddyddiau amrywiol o'r wythnos; rhai yn y bore, y prynhawn a gyda'r nos, i sicrhau y byddai pobl yn cael cyfle i fynychu o amgylch eu horiau gwaith ac ymrwymiadau teulu.

Hysbysebwyd y sesiynau ymgynghori yn ddwyieithog ar bosteri a arddangoswyd wrth fynedfeydd toiledau ar draws y fwrdeistref ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau iechyd. Gwnaethom hefyd gynhyrchu taflenni yn cynnwys y dyddiadau a chrynodeb un dudalen ‘Strategaeth Toiledau Lleol ar Dudalen ', gyda'r nod o gyflwyno'r pwyntiau allweddol mewn ffordd hygyrch i ennyn diddordeb. Dosbarthwyd y rhain mewn lleoliadau sy'n denu nifer uchel o ymwelwyr a lleoliadau allweddol y mae grwpiau targed yn ymweld â hwy.

Hyrwyddodd y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yr ymgynghoriad trwy fwletinau e-bost Cadw Cyswllt y Cyngor a'u hysbysebu ar sawl achlysur trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Anogwyd partneriaid lleol, ar draws sectorau amrywiol, i rannu'r wybodaeth ar-lein a rhannodd amrywiaeth o bartneriaid a busnesau y sesiynau ar Facebook. Roedd y rhain yn cynnwys Tîm Tref Blaenafon, Clwb Cyfansoddiadol Blaenafon, sesiynau plant bach *Happy Hands* a staff Tai Cymunedol Bron Afon.

**Ymgynghori wyneb yn wyneb a gyda grwpiau:**
Mae gan Dorfaen dri Fforwm 50+, yr ymwelwyd â hwy ddwywaith yn ystod y broses o ddatblygu ein Strategaeth Toiledau Lleol; cwblhaodd yr aelodau Arolygon Toiledau Lleol ym mis Awst / Medi a darparwyd diweddariadau ym mis Rhagfyr / Ionawr, gan roi cyfle i aelodau weld y Strategaeth Toiledau Lleol drafft a chlywed sut yr ymatebir i'w safbwyntiau cychwynnol.

Gan gydnabod pwysigrwydd toiledau i bobl hŷn, buom hefyd yn ymweld â chlybiau cinio Age Connects Torfaen wrth lunio’r Asesiad o Anghenion a dychwelyd i roi’r diweddaraf iddynt unwaith yr oedd y drafft o’r strategaeth ar gael.

Dangosodd Gwasanaethau Chwarae ac Ieuenctid CBS Torfaen eu cefnogaeth i'r Strategaeth Toiledau Lleol trwy gynnwys staff a defnyddwyr gwasanaeth yn yr Asesiad o Anghenion a chodi ymwybyddiaeth ynghylch sut i ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar ôl i'r strategaeth ddrafft gael ei llunio.

Gwnaethom hefyd weithio gyda Chanolfan Gofalwyr Torfaen ac ymweld â grŵp cymorth dementia i ddeall anghenion gofalwyr yn well a rhoi cyfle iddynt glywed am yr ymgynghoriad ac ymateb iddo.

Fe wnaethom gynnal sesiynau galw heibio ac ymgysylltu wyneb yn wyneb ar draws y fwrdeistref, yn cynnwys Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, lle y ceir y toiledau mwyaf poblogaidd yn y fwrdeistref. Gwnaethom fynychu'r farchnad ar dair adeg a siaradom â phobl ag amrywiaeth o afiechydon ac anableddau a oedd yn gallu tynnu sylw at rai o'r materion allweddol a ddylanwadodd ar y strategaeth.

**Sesiynau ymgynghori a hysbysebwyd yn gyhoeddus (adolygu'r drafft o'r Strategaeth Toiledau Lleol):**
Dydd Mercher 12 Rhagfyr 2018, 10:00am-12:00pm ym **Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl**
Dydd Iau 13 Rhagfyr 2018, 10:00am-12:00pm yng **Nghanolfan Adnoddau Blaenafon**
Dydd Gwener 14 Rhagfyr 2018, 10:00am-12:00pm yn **Llyfrgell Cwmbrân**

Dydd Mercher 9 Ionawr 2019, 2:00pm-3:30pm yn **Age Connects Torfaen**
Dydd Llun 14 Ionawr 2019, 4:30pm-6:30pm yn **Tesco Pont-y-pŵl**
Dydd Mercher 16 Ionawr 2019, 2:30pm-4:00pm yng **Nghanolfan Gofalwyr Torfaen**
Dydd Llun 21 Ionawr 2019, 12:00pm-2:00pm yn **Swyddfeydd Cyngor Tref Blaenafon**

**Sesiynau/diweddariadau'r grwpiau ymgynghori (adolygu'r drafft o'r Strategaeth Toiledau Lleol):**

Dydd Mawrth 8 Ionawr 2019 gyda **Fforwm 50+ Blaenafon**
Dydd Mercher 9 Ionawr 2019 gyda **Fforwm Cymorth Gweithredol i Bobl Hŷn Pont-y-pŵl**
Dydd Iau 17 Ionawr 2019 gyda **Chlwb Cinio Croesyceiliog yn Eglwys y Santes Fair, Croesyceiliog**
Dydd Mawrth 22 Ionawr 2019 gyda **Fforwm 50+ Cwmbrân**
Dydd Mercher 28 Ionawr gyda **Grŵp Dementia Canolfan Gofalwyr Torfaen**

**Sesiynau ymgysylltu blaenorol ar gyfer y Strategaeth Toiledau Lleol (cwblhau'r Arolwg Toiledau Lleol, gan lywio'r Asesiad o Anghenion):**
Fforwm 50+ Cwmbrân 24/07/18
Hwb Cymunedol/Clwb Cinio Ponthir 07/08/18
Fforwm 50+ Blaenafon 07/08/18
Fforwm 50+ Pont-y-pŵl 08/08/18
Hwb Cymunedol/Clwb Cinio Croesyceiliog 09/08/18
Fferm Gymunedol Greenmeadow 14/08/18
Widdershins, Sebastopol - Age Connects Torfaen 20/08/18
Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl – 22/08/18
Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl – 29/08/18
Llyfrgell Cwmbrân – 30/08/18
Canolfan Adnoddau Blaenafon – 31/08/18
Sesiwn / sesiynau ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid – 08/18
Sesiwn / sesiynau ymgysylltu â'r Gwasanaethau Chwarae– 08/18
Sesiwn Dad a Fi – 06/10/18

**Crynodeb o Ymatebion y Grŵp:**
Canfuom fod y grwpiau y gwnaethom ymweld â hwy yn gyffredinol yn gwerthfawrogi'r ymdrech y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a phartneriaid eraill yn ei gwneud i ddarparu toiledau ac maent yn deall y pwysau ariannol dan sylw.

**Fforymau 50+**
Cafodd dros 80 o bobl a fynychodd y tri fforwm yn Ionawr gyfle i fynegi eu barn ar y strategaeth ddrafft. Roeddent yn gefnogol o'r holl gamau gweithredu a gynigiwyd er eu bod yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael hefyd i'r rhai nad ydynt ar-lein. Bwydodd Fforwm 50+ Blaenafon ddau fater i'r sesiwn graffu ffurfiol drwy'r cynghorwyr lleol.

**Clwb Cinio Croesyceiliog**
Roedd y grŵp hwn yn cymryd rhan yn ein strategaeth ac yn cefnogi'r camau a gynigiwyd. Daethant â nifer o ystyriaethau ymarferol i'n sylw mewn perthynas â'r gosodiadau o fewn toiledau.

**Grŵp Dementia yng Nghanolfan Gofalwyr Torfaen**
Roedd y grŵp hwn yn gefnogol o'r camau arfaethedig yn y strategaeth ddrafft. Un pryder a godwyd oedd a fyddai rhywun yn mynychu mewn gwirionedd os yw'r llinyn argyfwng mewn toiledau hygyrch yn cael ei dynnu oherwydd cwymp, ac a yw'r staff wedi'u hyfforddi mewn codi a chario pobl. Dylid nodi mai cyfrifoldeb darparwr y toiled ac nid gwasanaeth y cyngor yw'r ymatebion i'r llinyn argyfwng. Amlygwyd hefyd sut mae toiledau niwtral o ran rhywedd yn fwy ymarferol i ofalwyr, yn enwedig os ydynt yn gofalu am gymar o'r rhyw arall.

Dywedodd Canolfan Gofalwyr Torfaen eu bod yn hapus i aelodau'r cyhoedd alw heibio a defnyddio eu toiledau ac fe wnaethant ofyn i gael eu cynnwys ar fapiau o doiledau.

**Ymatebion unigol i'r Ymgynghoriad**
Fe wnaethom dderbyn 32 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Roedd o leiaf 75% o'r rheini a ymatebodd yn cytuno â'n camau arfaethedig mewn 8 allan o 10 o feysydd yr ymgynghoriad. Derbyniodd dau gwestiwn lai o gefnogaeth. Y rhain oedd:

***Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno y bydd cynhyrchu a hyrwyddo taflenni ar-lein yn gwella gwybodaeth a mynediad i doiledau?***

Cytunodd 62.5% o'r sawl a ymatebodd, tra bod 21.9% yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n nodi pryderon ynghylch rhai pobl nad oeddent yn medru cael mynediad i wybodaeth ar lein.

***Cwestiwn 8 a): A ydych chi'n cytuno y dylem annog a hyrwyddo darpariaeth niwtral o ran rhywedd mewn cyfleusterau newydd sy'n cael eu datblygu? (e.e. ciwbiclau unigol heb nodi unrhyw ryw benodol)***

Cytunodd 40.6% o'r rheini a ymatebodd, gyda'r cam hwn, tra bod 50.0% yn anghytuno.

Rhoddwyd llawer o amser ac ymdrech i siarad â phobl wrth i ni ddatblygu'r strategaeth hon ac, ar y cyfan, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r ymdrech hon ac yn dangos bod ein cynigion yn cyd-fynd â barn ac anghenion ein trigolion.

**Crynodeb Llawn o Ymatebion Ffurfiol <u>Unigolion</u> i'r Ymgynghoriad**

Mae'r dadansoddiad isod yn crynhoi'r ymatebion i'n hymgynghoriad ar-lein a'n hymatebion gan unigolion a gwblhaodd ymgynghoriad copi caled yn bersonol yn ein digwyddiadau ymgynghori yn Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019.

*Noder: Efallai na fydd y canrannau yn cyrraedd 100% yn union oherwydd talgrynnu. Mae'r sylwadau wedi eu nodi fel y cawsant eu hysgrifennu.*

**Cyfleusterau glân, diogel, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda**

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y bydd ein camau arfaethedig yn darparu toiledau cyhoeddus sy'n lân, diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 25 | 78.1 |
| Nac ydw | 3 | 9.4 |
| Wn i ddim | 3 | 9.4 |
| Heb Ateb | 1 | 3.1 |

Sylwadau:

1. Rhaid i doiledau gael cynorthwyydd i sicrhau na fydd unrhyw ddifrod

**Cyfleusterau sy’n hygyrch i bawb, ymhob lleoliad ymarferol**

Cwestiwn 2: Ydych chi’n cytuno y bydd ein camau arfaethedig yn cefnogi ac yn gwella mynediad i doiledau?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 24 | 75.0 |
| Nac Ydw | 5 | 15.6 |
| Wn i ddim | 2 | 6.3 |
| Heb Ateb | 1 | 3.1 |

Sylwadau:

- Byddai amlygu toiledau hygyrch gerllaw yn fuddiol iawn i'r gymuned.
- Mae angen i bobl wybod yn union ble mae'r toiledau.
- Mae gennyf ychydig o syniadau i'w rhannu os yn bosibl. (Ar lafar, rhoddwyd y rhain fel a ganlyn: 1) Nawdd gan fusnesau, a 2) Cwmnïau preifat sy'n darparu toiledau ychwanegol y codir tâl amdanynt.
- Ymgysylltu â busnesau - nid toiledau cyhoeddus ond efallai y gallem barhau i fapio busnesau â thoiledau hygyrch sy'n hapus i'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi.
- Nid wyf yn credu y byddai esgidiau mwdlyd mewn lleoliadau eraill yn dderbyniol
- Mae dweud y byddwch chi'n gwneud rhywbeth (toiledau agored i'w defnyddio yn adeiladau CBC) yn wahanol i wneud rhywbeth.
- Angen copïau caled

**Ystyriaethau daearyddol**

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno y bydd ein camau arfaethedig yn gwella mynediad at doiledau yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn Nhorfaen?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 24 | 75.0 |
| Nac Ydw | 6 | 18.8 |
| Wn i ddim | 2 | 6.3 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Mae mynediad at doiledau yn arbennig o bwysig i'n henoed sydd angen y cyfleusterau'n amlach wrth iddynt fynd yn hŷn.
- Yn arbennig ar gyfer pobl ag anghenion arbennig.• Ychydig o syniadau i'w rhannu (Ar lafar roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch diffyg toiledau ar hyd y gamlas a mannau gwyrdd eraill.)
- Beth am ystyried gosod goleuadau - batri neu brif gyflenwad - yn y toiledau mewn mannau yn yr awyr agored gan eu bod yn aml yn dywyll.
- Pwy sy'n talu am lanhau a chyflenwadau? Ddim yn ailagor toiledau felly beth yw'r pwynt
- Ni fydd gan bob person, yr henoed a/ neu'r bregus, sydd angen mynediad aml i doiledau, unrhyw fath o gyfleuster TG. Mewn perygl o fandaliaeth gall fod o werth i rai gael map o doiledau yn y dref ym mhob toiled neu un map yn rhywle amlwg. Osgoi fandaliaeth yw'r rhan anodd a drud.

**Gweithio gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus a busnesau lleol**

Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno y bydd gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a busnesau preifat yn cefnogi ac yn gwella mynediad i doiledau?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 26 | 81.3 |
| Nac Ydw | 4 | 12.5 |
| Wn i ddim | 2 | 6.3 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Syniad da iawn!
- Pwy sy'n glanhau'r toiled preifat
- Os oes rhaid i chi adnewyddu ac ail-lansio, mae'n awgrymu nad oedd yn gweithio yn y lle cyntaf. Mwy fel ailwampio a gadael i wywo?
- Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn dod o hyd i gyfuniad o "ddarparwyr" i gynnal a gwella mynediad i doiledau oherwydd toriadau yn y gyllideb y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Mae'n hynod bwysig i mi gan fy mod yn dioddef o gyflwr y bledren sy'n ddifrifol - mae toiledau cyhoeddus yn caniatáu i mi gynnal fy mywyd cymdeithasol a'm helpu wrth i mi gymudo.
- Fel mewn llawer o wledydd, byddai'n fuddiol cynyddu nifer y toiledau sydd ar gael mewn caffis, bwytai, tafarndai a siopau i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid. Efallai y gallai rhyw fath o gymhelliant ariannol fod o gymorth

- Ddim yn hoffi'r arwydd toiled

**Map o gyfleusterau ar lein**

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y bydd y mapiau cenedlaethol a lleol yn cefnogi ac yn gwella mynediad i doiledau?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 25 | 78.1 |
| Nac Ydw | 5 | 15.6 |
| Wn i ddim | 2 | 6.3 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Ni fydd mapiau yn ddefnyddiol heblaw bod pobl yn gwybod amdanynt.
- Byddai hyn yn wych i'r cenedlaethau iau ond efallai y gellid arddangos map arall mewn mannau cyhoeddus ar gyfer y rhai na allant ddefnyddio cyfrifiadur.
- Cyn belled â'u bod yn cael eu diweddaru.
- Dim ond i'r rhai sydd â ffonau clyfar modern. Beth am yr henoed?
- O bosibl. Nid oes ffonau clyfar, ipads ac ati gan bawb sydd angen defnyddio cyfleusterau. Mae angen arwyddion da bob amser.
- Nid yw llawer o bobl hŷn yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae angen copïau caled
- Rhaid i chi gofio bod allgau digidol yn broblem barhaus i'r henoed ac nid yw llawer o fannau gwybodaeth yng nghanol y dref yn agored, mae canolfannau gwybodaeth yn ganolog i drefi ac nid i gyfleusterau twristaidd nad ydynt yn ganolog.

**Gwybodaeth a hyrwyddo cyfleusterau lleol**

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno y bydd cynhyrchu a hyrwyddo taflenni ar-lein yn gwella gwybodaeth a mynediad i doiledau?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 20 | 62.5 |
| Nac ydw | 7 | 21.9 |
| Wn i ddim | 5 | 15.6 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Byddai arwyddion priodol ochr yn ochr ag arwyddbyst presennol ar Lwybr Afon Lwyd, er enghraifft, yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig i ymwelwyr.
- Ydw rwy'n siŵr y byddai'r nodwedd hon yn ddefnyddiol
- Taflenni i fynd ble? Mae'n swnio fel gwastraffu mwy o arian.

- Byddai'n helpu o ran y sawl sy'n defnyddio technoleg ond nid i ddefnyddwyr hŷn / nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.
- Angen copïau caled
- Marciau ‘fel yr uchod’ i'r sylwadau ar allgau digidol

**Arwyddion**

Cwestiwn 7: a) A ydych chi'n cytuno y dylem archwilio ffyrdd o wella arwyddion ar doiledau y mae'r awdurdod lleol yn eu darparu?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 27 | 84.4 |
| Nac ydw | 3 | 9.4 |
| Wn i ddim | 2 | 6.3 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Gwastraffu mwy o arian ar ddwyieithrwydd mewn sir lle mae'r Gymraeg yn farw?
- Byddai hyn yn lleihau'r straen ar lawer o bobl.
- Gan fod gen i blant ifanc, rwy'n teimlo y byddai arwyddion o fudd i mi
- Nid yw arwydd sy'n nodi amserau agor yn golygu y bydd ar agor. Mwy o arian yn cael ei wastraffu.

Cwestiwn 7 b): Ac y dylem annog sefydliadau eraill a busnesau preifat i arddangos yr arwyddion hyn?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 30 | 93.8 |
| Nac ydw | 2 | 6.3 |
| Wn i ddim | 0 | 0.0 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Pam ddylai busnesau preifat gynnig eu toiledau?
- Byddai hyn yn eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus o ran ble yr hoffech chi fynd.
- Byddwn oherwydd y byddwn yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn mynd i mewn pe baent yn hysbysebu bod croeso i mi wneud hynny ... Byddai hefyd yn fy nhemtio i brynu rhywbeth yn hytrach na rhuthro adref

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Cwestiwn 8 a): A ydych chi'n cytuno y dylem annog a hyrwyddo darpariaeth niwtral o ran rhywedd mewn cyfleusterau newydd fydd yn cael eu datblygu? (e.e. ciwbiclau unigol heb nodi unrhyw ryw)

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 13 | 40.6 |
| Nac ydw | 16 | 50.0 |
| Wn i ddim | 3 | 9.4 |
| Heb Ateb | 0 | 0.0 |

Sylwadau:

- Na ddylai fod ar wahân yn yr un modd â'r 100 mlynedd diwethaf ... rwy'n ddyn, buaswn yn teimlo'n anghyfforddus yn rhannu gyda menyw. Mwy cywir o nonsens 'wleidyddol gywir', yn costio arian.
- Nid wyf o blaid cyfleusterau niwtral o ran rhyw.
- Nid oes gwir angen gwahanu'r rhywiau o ran toiledau ac mae ciwbiclau unigol yn llawer mwy diogel, rhesymegol a chyfforddus.
- Yn bendant. Rwy'n meddwl, mewn ychydig flynyddoedd, mae'n debyg y bydd yn gyfraith, felly mae'n well dechrau nawr.
- Nid yw'n deg ar y merched sy'n gorfod cystadlu â ffyliaid sy'n methu codi sedd a'i gadael yn wlyb. Mwy na thebyg yr un ffyliaid sydd byth yn golchi'u dwylo sy'n fy arwain at bwnc arall - dolenni drysau. Mae'r rheini sy'n gwerthfawrogi glendid angen dulliau agor drysau, sy'n golygu nad oes angen cyffwrdd ar y dolenni. Mae gwthio gyda throed neu benelin yn llawer mwy deniadol ond mae'n debyg ei fod allan o'r cwestiwn oherwydd cost, a rhaid peidio ag anghofio hynny.
- Gallaf ddeall sut y gall hyn beri i bobl deimlo dan fygythiad mewn man cyhoeddus
- Nid yw niwtral o ran rhywedd yn briodol pan fo rhyw yn wahanol yn ffisegol. Mae'n frawychus mynd i mewn i adeiladau sydd ar agor i'r ddau ryw ac mae'n fwy tebygol y bydd y seddi'n wlyb
- Nid wyf yn siŵr sut y byddwn yn teimlo am ddefnyddio'r cyfleusterau hyn fel menyw. Efallai fy mod yn teimlo'n bryderus o ran fy ngofod / diogelwch personol. Er fy mod yn parchu'r egwyddor o ddarpariaeth niwtral o ran rhyw.
- Mae angen i gyfleusterau newid babanod fod yn niwtral o ran rhywedd, ond lle bo'n bosibl byddai'n well darparu toiledau sy'n benodol i ryw a rhywedd niwtral
- Hoffwn petai yna doiledau i ddynion a menywod yn aros ar wahân

Cwestiwn 8 b): A ydych chi'n cytuno y dylem annog a hyrwyddo ystyriaethau amgylcheddol?

| Opsiwn | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 31 | 96.9% |
| Nac ydw | 0 | 0.0% |
| Wn i ddim | 1 | 3.1% |
| Heb Ateb | 0 | 0.0% |

Sylwadau:

- Er mwyn hyrwyddo materion amgylcheddol rhaid i chi ymarfer yr hyn yr ydych yn ei bregethu.

**Lluniau a dynnwyd yn ystod ein hymarfer ymgysylltu:**







TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN







Dywedwch eich dweud
Hoffem glywed eich barn ar y Strategaeth Toiledau Lleol drafft i Dorfaen
(nid ydym yn bwriadu cau unrhyw doiledau)
Ymunwch yn ein sgwrs yn getinvolved.torfaen.gov.uk
neu dewch i'n gweld ni am sgwrs:
• Dydd Mercher 12 Rhagfyr, 10am - 12pm yn Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, NP4 6JW
• Dydd Iau 13 Rhagfyr, 10am - 12pm yng Nghanolfan Adnoddau Blaenafon, NP4 9AW
• Dydd Gwener 14 Rhagfyr, 10am - 12pm yn Llyfrgell Cwmbrân, NP44 1PL
• Dydd Mercher 9 Ionawr, 2pm - 3:30pm yn Age Connects Torfaen, NP4 5AB
• Dydd Llun 14 Ionawr, 4:30pm - 6:30pm yn Tesco Pont-y-pŵl, NP4 6JU
• Dydd Mercher 16 Ionawr, 2:30pm-4pm yng Nghanolfan Gofalwyr Torfaen, NP4 6LY
• Dydd Llun 21 Ionawr, 12pm-2pm yn Swyddfeydd Cyngor Tref Blaenafon, NP4 9PT
Am gopi caled ffoniwch 01495 766958 os gwelwch yn dda
Atebwch erbyn dydd Iau 7fed Chwefror 2019
Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi ym Mai 2019
Have your say
We would like your views on the draft Local Toilets Strategy for Torfaen
(we do not plan to close any toilets!)
Respond to our consultation at getinvolved.torfaen.gov.uk
or come and speak to us in person:
For a hard copy please call 01495 766958
Please respond by Thursday 7th February 2019
The final strategy will be published in May 2019